------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Mehefin 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 78(v7)

## Enwebiadau ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau

(5 munud)

Bydd y Llywydd yn gwahodd enwebiadau ar gyfer cadeiryddion y pwyllgorau canlynol, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F:

(i) Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

(ii) Y Pwyllgor Deisebau

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 3.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I** Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau beth yw targedau'r Llywodraeth ar gyfer asesiad PISA 2018?

**I** Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:

Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y cytundeb mynediad masnachol rhwng GIG Cymru a Roche, a fydd yn golygu y gall cleifion canser y fron yng Nghymru gael gafael ar y cyffur Kadcyla?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

(10 munud)

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 16, 19, 20 a 27 mewn perthynas â Phroses y Gyllideb a Gweithdrefnau Cyllid

**NDM6332** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 16, 19, 20 a 27 – Proses y Gyllideb a Gweithdrefnau Cyllid' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14.06.17; ac

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 16, 19, 20 a 27, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 6 Cynnig i gymeradwyo protocol y gyllideb a gytunwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru

**NDM6333** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo'r protocol ar y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb a gytunwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2017.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ei ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru

(60 munud)

**NDM6334** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar yr ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ebrill 2017.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2017.

## 8 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6336** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn datgan ei hun fel senedd genedlaethol Cymru.

2. Yn mynnu bod yr holl bwerau ac adnoddau a gaiff eu harfer ar hyn o bryd ar lefel yr UE o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig yn cael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

3. Yn mynnu ymhellach fod Llywodraeth y DU yn ceisio cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer pob cytundeb masnach yn y dyfodol â'r UE a gwledydd eraill o amgylch y byd er mwyn diogelu buddiannau economi Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi Papur Polisi Llywodraeth y DU 'The United Kingdom's exit from, and new partnership with, the European Union' sy'n nodi ein bod eisoes wedi ymrwymo na chaiff unrhyw benderfyniadau a wneir ar hyn o bryd gan y gweinyddiaethau datganoledig eu tynnu oddi arnynt ac y byddwn yn defnyddio'r cyfle i ddwyn y broses o wneud penderfyniadau yn ôl i'r DU i sicrhau bod mwy o benderfyniadau yn cael eu datganoli.

'[The United Kingdom's exit from, and new partnership with, the European Union]'

**Gwelliant 2.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod Prif Weinidog y DU wedi bod yn glir am ei bwriad i gael cytundeb wedi'i deilwra sy'n gweithio i'r DU gyfan, sy'n sicrhau'r fasnach fwyaf rhydd bosibl o ran tariff a rhwystr â'n cymdogion Ewropeaidd, drwy gytundeb masnach rydd newydd, cynhwysfawr, hyderus ac uchelgeisiol.

## 9 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6335**

Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
David Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi papur gwaith Banc Lloegr, The Impact of Immigration on Occupational Wages, a'r casgliadau ynddo bod cynnydd o 10 y cant yn y gyfran o fewnfudwyr sy'n gweithio mewn swyddi lled-grefftus neu heb grefft o gwbl, yn arwain, ar gyfartaledd, at dorri 2 y cant yng nghyflogau pobl sydd mewn gwaith mewn rhanbarth benodol.

2. Yn credu:

a) y byddai gan system fewnfudo deg, wedi'i rheoli, sy'n rhoi pwyslais ar fewnfudo â sgiliau, yn sicrhau buddiannau sylweddol i economi'r DU;

b) bod sefydliadau cyhoeddus fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn dibynnu ar fewnfudo â sgiliau ar hyn o bryd o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn ogystal ag o'r tu fewn iddo;

c) nad yw mewnfudo heb reolaeth, ac, ar y cyfan heb sgiliau, o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, ar y lefelau presennol, yn gynaliadwy;

d) bod polisi mewnfudwyr presennol y DU yn gwahaniaethu ar ran mewnfudwyr o blaid gwladolion yr UE ar draul pobl o rannau eraill y byd.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno system gadarn ond teg o reoli mewnfudwyr:

a) nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn dinasyddion o'r tu allan i'r UE;

b) nad yw'n dyblygu o ran sylwedd na ffaith, gyfundrefn bresennol yr UE na'r EEA o ran hawl gweithwyr i symud yn rhydd; ac

c) sy'n ceisio cydbwyso mewnfudo ac ymfudo dros gyfnod o bum mlynedd.

'The Impact of Immigration on Occupational Wages: evidence from Britain'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod gan Brydain a Chymru economi agored a chymdeithas groesawgar, gyda mewnfudo yn chwarae rhan sylweddol o ran cynnal a datblygu economi fodern yn yr 21ain ganrif.

2. Yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau y gall ein gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a phrifysgolion o'r radd flaenaf barhau i recriwtio'r disgleiriaf a'r goreuon o bob cwr o'r byd.

3. Yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i ddatblygu atebolrwydd a rheolaeth o fewn system fewnfudo'r wlad.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod dadansoddiad a gynhaliwyd gan Ganolfan Perfformiad Economaidd Ysgol Economaidd Llundain wedi dod i'r casgliad mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd i awgrymu bod mewnfudo yn ei gyfanrwydd na mewnfudo o'r UE wedi cael effaith negyddol sylweddol ar gyflogaeth, cyflogau ac anghydraddoldeb o ran cyflogau ar y boblogaeth a anwyd yn y DU.

2. Yn credu y dylai'r hawliau a'r breintiau a roddir i ddinasyddion y DU a'r UE sy'n byw ac yn gweithio mewn aelod-wladwriaethau eraill yr UE ar hyn o bryd gael eu diogelu.

3. Yn credu bod angen creu Gwasanaeth Cynghori ar Fewnfudo ar gyfer Cymru ac a allai gyhoeddi fisâu penodol i Gymru er mwyn cau'r bylchau yn economi Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i warantu hawliau holl ddinasyddion yr UE sy'n byw ac yn gweithio yn y DU ar hyn o bryd, ar ôl gadael yr UE.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ymgynghoriad ar sut y gallai system trwyddedau gwaith i Gymru fod o fudd i economi Cymru.

'London School of Economics' Centre for Economic Performance'

*[Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ailddatgan ei gefnogaeth i'r Papur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, sy'n cydbwyso swyddi a'r economi â'r angen i ymdrin â phryderon am effaith mudo ar gymunedau bregus;

2. Yn cefnogi'r dull gweithredu a amlinellir yn Diogelu Dyfodol Cymru, sef:

a) cysylltu hawl gwladolion yr Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewrop i symud i'r Deyrnas Unedig ar ôl Brexit â swyddi; a

b) cynyddu'r ymdrechion i atal camfanteisio ar weithwyr, yn enwedig rhai sydd ar gyflogau isel.

'Diogelu Dyfodol Cymru'

## Cynigion i gytuno ar aelodaeth pwyllgorau

(5 munud)

**NDM6341** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Gareth Bennett (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn lle Vikki Howells (Llafur);

**NDM6342** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mike Hedges (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau yn lle Gareth Bennett (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig).

**NDM6343** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Vikki Howells (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Mike Hedges (Llafur).

**NDM6344** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Gareth Bennett (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes lle David Rowlands (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig).

**NDM6345** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3 ac 17.13(ii), yn ethol Neil Hamilton (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

**NDM6346** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3 ac 17.13(ii), yn ethol David Rowlands (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6331** [Vikki Howells (Cwm Cynon)]

Yr heriau aml-ochrog sy'n deillio o dlodi yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Mehefin 2017 i'w hateb ar 21 Mehefin 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1.** **Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am lwyfannu Rownd Derfynol Pencampwriaeth UEFA a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar? OAQ(5)0187(EI)

**2.** **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am Fanc Datblygu Cymru? OAQ(5)0178(EI)

**3.** **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae ei adran yn cydweithio â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i gynyddu datblygiad economaidd yng Nghymru? OAQ(5)0182(EI)

**4.** **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella'r gwaith o hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid? OAQ(5)0177(EI)

**5.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi? OAQ(5)0189(EI)

**6.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu seilwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0174(EI)

**7.** **Jeremy Miles (Castell-nedd):** A yw Busnes Cymru yn bodloni amcanion cefnogi busnes Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0183(EI)

**8.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fuddsoddi yn y rhwydwaith rheilffyrdd? OAQ(5)0181(EI)

**9.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wella cysylltiadau trafnidiaeth o fewn dinas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(5)0175(EI)

**10.** **David J Rowlands (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ysgogi twf economaidd yn ne-ddwyrain Cymru y tu allan i Gaerdydd? OAQ(5)0190(EI)

**11.** **Caroline Jones (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r

gwasanaeth twristiaeth a gaiff eu cynnig yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0185(EI)

**12.** **Vikki Howells (Cwm Cynon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghwm Cynon? OAQ(5)0188(EI)

**13.** **David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa strategaeth sydd yn ei lle i gynyddu nifer y teithiau bws lleol gan deithwyr? OAQ(5)0186(EI)

**14.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amgueddfa bêl-droed genedlaethol arfaethedig? OAQ(5)0179(EI)**W TYNNWYD YN ÔL**

**15.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Velothon Cymru? OAQ(5)0184(EI)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**1.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r effaith ar iechyd y cyhoedd a gaiff methu â datblygu dewisiadau amgen cynaliadwy i geir ar gyfer mynd â phlant i'r ysgol mewn ardaloedd trefol? OAQ(5)0191(HWS)

**2.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyfodol meddygfeydd gwledig? OAQ(5)0174(HWS)**W TYNNWYD YN ÔL**

**3.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am amseroedd aros yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan? OAQ(5)0179(HWS)

**4.** **Vikki Howells (Cwm Cynon):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra ymysg plant yng Nghymru? OAQ(5)0187(HWS)

**5.** **Caroline Jones (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella seilwaith TG GIG Cymru? OAQ(5)0184(HWS)

**6.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am safonau bwyd ysbytai yng Nghymru? OAQ(5)0189(HWS)

**7.** **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi practisau meddygon teulu yng Nghymru? OAQ(5)0176(HWS)

**8.** [Rhianon Passmore (Islwyn):] A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu gweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol? OAQ(5)0186(HWS)

**9.** [Nathan Gill (Gogledd Cymru):] A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am berfformiad y gwasanaeth iechyd yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0181(HWS)

**10.** [Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):] A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am rôl byrddau iechyd lleol Cymru wrth daclo cam-ddefnyddio cyffuriau? OAQ(5)0175(HWS)**W TYNNWYD YN ÔL**

**11.** [Russell George (Sir Drefaldwyn):] A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i iechyd meddwl oedolion yn Sir Drefaldwyn? OAQ(5)0177(HWS)

**12.** [Vikki Howells (Cwm Cynon):] A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r gefnogaeth i bobl yng Nghymru sydd â dementia? OAQ(5)0188(HWS)

**13.** [Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):] A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru sydd ag epilepsi? OAQ(5)0180(HWS)

**14.** [Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):] A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer recriwtio nyrsys yng Nghymru? OAQ(5)0190(HWS)

**15.** [Hefin David (Caerffili):] A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sgrinio canser y coluddyn yng Nghymru? OAQ(5)0182(HWS)